# DAVIES, HUMPHREY (neu WMFFRE DAFIS (bu farw 1635), ficer Darywain, a chopïydd llawysgrifau Cymraeg

**Enw:** Humphrey Davies
**Dyddiad marw:** 1635
**Priod:** Sioned Davies (née Stanley)
**Rhiant:** Sioned ferch David ap Thomas
**Rhiant:** Dafydd ap Gruffudd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** ficer Darywain, a chopïydd llawysgrifau Cymraeg
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Evan David Jones

Mab Dafydd ap Gruffudd o gyffiniau Harlech. Dywedir iddo fod yn rheithor Llanfyllin am rai misoedd yn 1571, ac iddo fyned oddi yno i astudio yng Nghaergrawnt. Ymddengys i'w yrfa yno gael ei chymysgu ag eiddo gwr o'r un enw o Leamington Hastings yn y llyfrau ar raddedigion Caergrawnt. A barnu oddi wrth ddistawrwydd y beirdd ar y pwnc, ni chymerth radd yno. Bu'n ficer Darywain o 1577 hyd ei farw yn 1635. Copïodd nifer o lawysgrifau barddoniaeth Gymraeg, ac erys o leiaf chwech ohonynt, sef Gwyneddon 1, Llanstephan 35 a 118, Mostyn 160, Bodewryd 1, a Brogyntyn 2. Copïodd yr olaf hwn i'r Dr. Theodore Price, is-ddeon Westminster, a nai i'w wraig, Sioned ferch Edward Stanley, cwnstabl castell Harlech yn 1551. Canwyd cywyddau iddo gan Ruffudd, Richard, a Sion Philip, Ieuan Tew Brydydd o Arwystl, ac Evan Lloyd o Waun Einion. Dywed Richard a Sion Philip iddo yn ieuanc gyfieithu llyfrau estron i'r Gymraeg.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau


*A Survey of the Cathedral-Church of St. Asaph* (1720), i, 384

H. B. Thomas, *A History of the Diocese of St. Asaph* (1874), ii, 234

*Athenae Cantabrigienses* (1858–1913), ii, 474

*Alumni Cantabrigienses*

N.L.W. Church in Wales Rec., St Asaph

Reg. Collat.


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733212

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/


Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu